

Minutes of Meeting of the Environmental Committee held on 2nd June 2025 at 6.30 pm Hybrid Meeting Ostreme Centre and via Teams

Councillors Present: Carrie Townsend Jones (Chair), Sara Keeton, Phil Keeton, Rebecca Fogarty and Helen Nelson

Co-opted Members Present: Eddie Hall and Cllr Chris Evans

Officers Present: Paul Beynon – RFO, Robert Hernando – Environmental Officer, and Ian Hughes – CSO

EN2505-01 Apologies: None

EN2505-02 Declarations of Interest: None

EN2505-03 Minutes of Previous Meeting of the Committee

To approve the minutes of the meeting held on 28th April 2025 as a true record.

RESOLVED: CSO to e-mail minutes to co-opted members prior to meetings

RESOLVED to approve the minutes of the meeting held on 28th April 2025 as a true record.

EN2505-04 Elect Vice Chair for Committee

The Chair, Cllr Townsend Jones canvassed for volunteers to take up the role of Vice Chair of the committee. Cllr Phil Keeton volunteered his services.

RESOLVED: Cllr Phil Keeton was duly elected as vice chair of the Environmental Committee

EN2505-05 Actions arising from Previous Meetings

The CSO updated the committee on all outstanding actions having previously circulated the full list of outstanding 'actions' to committee members. Discussions took place on a number of outstanding and proposed new actions.

RESOLVED: Outstanding actions updated and shown as complete where appropriate; details recorded in 'action' report, together with newly created actions.
Cllr Helen Nelson arrived at the meeting at 6.36pm

EN2505-06 Budget Monitoring Reports to 31/03/2025 - Paul Beynon, RFO

Reports attached.

Financial reports prepared by RFO, Paul Beynon had previously been provided to Committee members.

No queries were raised with RFO or CSO prior to the meeting.

The RFO outlined grant areas together with underspent and overspent issues. In addressing questions from Councillors, the RFO outlined that the complete accounts for the previous financial year will not be available until all outstanding invoices had been accounted for. Once these records are complete appropriate recommendations can then be made to Full Council

RESOLVED: to approve the budget monitoring report to 31st March 2025.

RESOLVED: to approve the Environmental Committee Income Transactions to 31st March 2025.

Cllr Chris Evans joined the meeting at 7.02pm

EN2505-07 Environment Officer - Monthly Report on current projects and overview:

Summary of previous months activity and next steps for June. Report attached.

Robert Hernando, The Environmental and Sustainability Engagement Officer had previously provided his monthly report to committee members. No queries were raised with either The Clerk or CSO prior to the meeting

Robert outlined some key aspects from his report including the proposed purchase of water testing kits. During the discussion that followed a number of suitable sites were identified including Washingbrook Stream and Clyne Valley.

Robert detailed that progress is being made with the Mumbles Plastic Free initiative with only pledges needing to be made by local community participants. Robert outlined the committee on litter picks and other volunteer events and that the Bio Diversity School Programme would be commencing with Mayals Primary School as the pilot scheme.

RESOLVED: That further to Robert's **previous action (103)** he is to purchase two basic water testing kits at a cost of £400 each.

With regard to Mumble Green Heroes a discussion took place on how best to promote future events. Consideration was given to amalgamating events with other activities

including Fun Days and to host 'site' visits rather than holding meetings at Underhill's Hub. Such visits could include a recycling centre and a local bay.

RESOLVED: Councillors to propose suitable suggestions at June Meeting

A discussion ensued between councillors and Robert Hernando on how best to circulate his report to a wider audience such as libraries and relevant organisations.

RESOLVED: Robert Hernando to distribute his EO to One Voice Wales and The Local Nature Recovery Strategy. His report which is currently targeted at staff/Councillors within MCC to be edited for a wider audience including the removal of acronyms such as EO.

Whilst not forming part of the EO Report Cllr Nelson informed the committee of the forthcoming Green Roof Day

ACTION: Cllr Nelson to forward participation dates of event to Robert Hernando and Cllr O'Connor

Environment Officer – Work Plan

EN2505-08

Documents pertaining to the Work Plan had been circulated to members prior to the meeting.

During the discussion that followed on the above work plan, the importance of wellbeing and good mental health were discussed and how these can be incorporated into the plan.

RESOLVED: Cllr Fogarty to liaise with Rachel from Yoga 4 Health on how best to progress this issue.

Mumbles Crop Collective (to include map of fruit trees)

EN2504-09

Documents pertaining to Mumbles Crop Collective had been circulated to members prior to the meeting.

A discussion took place on the progress being made with volunteers and how best to develop a fruit tree map. In addition, concerns were raised in relation the excessive 'stripping' of fruit from the Community Orchard even before the fruit has fully matured.

RESOLVED: All details of fruit tree locations to be forwarded to Robert Hernando for inclusion within the Fruit Tree Map.

RESOLVED: Consideration to be given to using a wildlife camera and 'CCTV in operation' signs as a deterrent to the wholesale stripping of fruit at The Community Orchard.

Climate Emergency Action Update

EN2505-10

The Chair, Cllr Townsend Jones outlined that this will be progressed during the forthcoming financial year and that Robert Hernando had already liaised with The RFO in relation to budget considerations with a workshop being the next criteria.

A discussion took place on how best to assist the local community with issues such as flooding arising from global concerns.

RESOLVED: Robert Hernando to continue to develop project and the issue to be brought back to committee later this summer.

Cllr Nelson left the meeting at 8.02pm & Cllr Chris Evans left the meeting at 8.09pm

EN2505-11

Plant Swap Shop

During the discussion it was the consensus of the committee that any plant swap shop would need to take place after the summer due to time required to germinate plants.

RESOLVED; Suitable venues and dates for a plant swap shop to be discussed at a future committee meeting.

EN2505-12

To confirm time and dates of future committee meetings (2025/26)

A number of Councillors raised difficulties with this committee meeting being held on a Monday due to other engagements.

RESOLVED; Future Environmental Committee Meetings to be held on the 4th Tuesday of each month at 6.30pm

Meeting ended at 8.27pm.

Next Meeting 24th June 2025

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor yr Amgylchedd a gynhaliwyd ar 2 Mehefin 2025 am 6.30pm Cyfarfod hybrid yng Nghanolfan Ostreme a thrwy gyfrwng Microsoft Teams

Cynghorwyr yn bresennol: Carrie Townsend Jones (Cadeirydd), Sara Keeton, Phil Keeton, Rebecca Fogarty a Helen Nelson

Aelodau cyfetholedig yn bresennol: Eddie Hall a'r Cynghorydd Chris Evans

Swyddogion yn bresennol: Paul Beynon – Swyddog Ariannol Cyfrifol, Robert Hernando – Swyddog Amgylcheddol, ac Ian Hughes – Swyddog Cymorth Pwyllgorau

EN2505-01 Ymddiheuriadau: Dim

EN2505-02 Datganiadau o fuddiant: Dim

EN2505-03 Cofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2025 fel cofnod cywir.

PENDERFYNWYD: Bydd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yn e-bostio cofnodion at aelodau cyfetholedig cyn cyfarfodydd

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Ebrill 2025 fel cofnod cywir.

EN2505-04 Ethol is-gadeirydd y pwyllgor

Gofynnodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, am wirfoddolwyr i ymgymryd â rôl is-gadeirydd y pwyllgor. Cynigiodd y Cynghorydd Phil Keeton ei wasanaethau'n wirfoddol.

PENDERFYNWYD: Ethol y Cynghorydd Phil Keeton yn briodol yn is-gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd

EN2505-05 Camau'n codi o gyfarfodydd blaenorol

Rhoddodd y Swyddog Cymorth Pwyllgorau yr wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor am yr holl gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau ar ôl dosbarthu'r rhestr lawn o 'gamau gweithredu' a oedd heb eu cwblhau i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Cafwyd trafodaethau ar nifer o gamau gweithredu a oedd heb eu cwblhau, a chamau gweithredu newydd arfaethedig.

PENDERFYNWYD: Diweddarau'r camau gweithredu heb eu cwblhau a'u dangos fel rhai sydd wedi'u cwblhau lle bo'n briodol; cofnodi'r manylion yn yr adroddiad 'camau gweithredu', ynghyd â chamau gweithredu newydd eu creu. Cyrhaeddodd y Cynghorydd Helen Nelson y cyfarfod am 6.36pm

EN2505-06 Adroddiadau monitro'r gyllideb hyd at 31 Mawrth 2025 – Paul Beynon, Swyddog Ariannol Cyfrifol

Adroddiadau wedi'u hatodi.

Roedd adroddiadau ariannol a baratowyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol, Paul Beynon, wedi'u darparu i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol.

Ni chodwyd unrhyw gwestiynau gyda'r Swyddog Ariannol Cyfrifol na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod.

Amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol feysydd grant ynghyd â phroblemau tanwariant a gorwariant. Wrth ateb cwestiynau gan gynghorwyr, amlinellodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol na fydd y cyfrifon cyflawn ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ar gael nes bod cyfrif wedi'i roi am yr holl anfonebau sy'n weddill. Unwaith y bydd y cofnodion hyn wedi'u cwblhau, gellir gwneud argymhellion priodol i'r cyngor llawn

PENDERFYNWYD: cymeradwyo'r adroddiad monitro cyllideb hyd at 31 Mawrth 2025.

PENDERFYNWYD: cymeradwyo trafodion incwm Pwyllgor yr Amgylchedd hyd at 31 Mawrth 2025.

Ymunodd y Cynghorydd Chris Evans â'r cyfarfod am 7.02pm

EN2505-07 Swyddog yr Amgylchedd – adroddiad misol ar brosiectau cyfredol a throsolwg:

Crynodeb o weithgarwch y misoedd blaenorol a'r camau nesaf ar gyfer mis Mehefin. Adroddiad wedi'i atodi.

Roedd Robert Hernando, y Swyddog Ymgysylltu Amgylcheddol a Chynaliadwyedd wedi darparu ei adroddiad misol i aelodau'r pwyllgor yn flaenorol. Ni chodwyd unrhyw ymholiadau gyda'r clerc na'r Swyddog Cymorth Pwyllgorau cyn y cyfarfod

Amlinellodd Robert rai agweddau allweddol o'i adroddiad gan gynnwys y cynnig i brynu citiau profi dŵr. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, nodwyd nifer o safleoedd addas gan gynnwys Nant y Golchdy a Dyffryn Clun.

Manylodd Robert fod cynnydd yn cael ei wneud gyda menter y Mwmbwls di-blastig a'r unig beth sydd ei angen yw addewidion gan gyfranogwyr y gymuned leol. Amlinellodd Robert i'r pwyllgor am gasgliadau sbwriel a digwyddiadau gwirfoddol eraill ac y byddai'r Rhaglen Bioamrywiaeth Ysgolion yn dechrau gydag Ysgol Gynradd Mayals fel y cynllun peilot.

PENDERFYNWYD: Yn dilyn **gweithred flaenorol (103)** Robert, mae'n bwriadu prynu dau becyn profi dŵr sylfaenol am gost o £400 yr un.

O ran Arwyr Gwyrdd y Mwmbwls, cynhaliwyd trafodaeth ar y ffordd orau o hyrwyddo digwyddiadau yn y dyfodol. Ystyriwyd cyfuno digwyddiadau â gweithgareddau eraill gan gynnwys Diwrnodau Hwyl a chynnal ymweliadau 'safle' yn hytrach na chynnal cyfarfodydd yng Nghanolfan Underhill. Gallai ymweliadau o'r fath gynnwys canolfan ailgylchu a bae lleol.

PENDERFYNWYD: Cynghorwyr i gynnig awgrymiadau addas yng nghyfarfod Mehefin

Dilynodd trafodaeth rhwng cynghorwyr a Robert Hernando ar y ffordd orau o ddosbarthu ei adroddiad i gynulleidfa ehangach fel llyfrgelloedd a sefydliadau perthnasol.

PENDERFYNWYD: Robert Hernando i ddosbarthu ei nodau amgylcheddol i Un Llais Cymru a'r Strategaeth Adfer Natur Leol. Bydd ei adroddiad, sydd ar hyn o bryd wedi'i dargedu at staff / cynghorwyr o fewn Cyngor Cymuned y Mwmbwls, yn cael ei olygu ar gyfer cynulleidfa ehangach gan gynnwys cael gwared ar acronymau fel nodau amgylcheddol.

Er nad oedd yn rhan o'r adroddiad nodau amgylcheddol, hysbysodd y Cyngorydd Nelson y pwyllgor am y Diwrnod Toeau Gwyrdd sydd ar ddod

CAM GWEITHREDU: Y Cyngorydd Nelson i anfon dyddiadau cymryd rhan yn y digwyddiad at Robert Hernando a'r Cyngorydd O'Connor

EN2505-08

Swyddog yr Amgylchedd – cynllun gwaith

Roedd dogfennau yn ymwneud â'r cynllun gwaith wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd ar y cynllun gwaith uchod, trafodwyd pwysigrwydd llesiant ac iechyd meddwl da a sut y gellir ymgorffori'r rhain yn y cynllun.

PENDERFYNWYD: Bod y Cyngorydd Fogarty i gysylltu â Rachel o Yoga 4 Health ynghylch y ffordd orau o symud y mater hwn ymlaen.

EN2504-09

Cydweithfa Cnydau'r Mwmbwls (i gynnwys map o goed ffrwythau)

Roedd dogfennau yn ymwneud â Chydweithfa Cnydau'r Mwmbwls wedi'u dosbarthu i'r aelodau cyn y cyfarfod.

Cynhaliwyd trafodaeth ar y cynnydd sy'n cael ei wneud gyda gwirfoddolwyr a'r ffordd orau o ddatblygu map coed ffrwythau. Yn ogystal, codwyd pryderon ynghylch 'tynnu' gormod o ffrwythau o'r berllan gymunedol hyd yn oed cyn i'r ffrwythau aeddfedu'n llawn.

PENDERFYNWYD: Anfon yr holl fanylion am leoliadau coed ffrwythau at Robert Hernando i'w cynnwys yn y Map Coed Ffrwythau.

PENDERFYNWYD: Ystyried defnyddio camera bywyd gwyllt ac arwyddion 'Teledu cylch cyfyng ar waith' i atal pobl rhag tynnu'r ffrwythau'n gyfan gwbl yn y berllan gymunedol.

Diweddariad gweithredu ar yr argyfwng hinsawdd

EN2505-10

Amlinellodd y cadeirydd, y Cynghorydd Townsend Jones, y bydd hyn yn cael ei ddatblygu yn ystod y flwyddyn ariannol sydd i ddod, a bod Robert Hernando eisoes wedi cysylltu â'r Swyddog Ariannol Cyfrifol mewn perthynas ag ystyriaethau cyllidebol gyda gweithdy yn flaenoriaeth nesaf o blith y meini prawf.

Cynhaliwyd trafodaeth ar y ffordd orau o gynorthwyo'r gymuned leol gyda materion fel llifogydd sy'n deillio o bryderon byd-eang.

PENDERFYNWYD: Robert Hernando i barhau i ddatblygu'r prosiect a'r mater i'w ddychwelyd i'r pwyllgor yn ddiweddarach yr haf hwn.

Gadawodd y Cynghorydd Nelson y cyfarfod am 8.02pm a gadawodd y Cynghorydd Chris Evans y cyfarfod am 8.09pm

EN2505-11

Siop Cyfnewid Planhigion

Yn ystod y drafodaeth consensws y pwyllgor oedd y byddai angen i unrhyw siop gyfnewid planhigion ddigwydd ar ôl yr haf oherwydd yr amser sydd ei angen i blanhigion egino.

PENDERFYNWYD: Trafod lleoliadau a dyddiadau addas ar gyfer siop cyfnewid planhigion mewn cyfarfod pwyllgor yn y dyfodol.

EN2505-12

Cadarnhau amser a dyddiadau cyfarfodydd y pwyllgor yn y dyfodol (2025-2026)

Cododd nifer o gynghorwyr anawsterau gyda'r cyfarfod pwyllgor hwn yn cael ei gynnal ar ddydd Llun oherwydd ymrwymadau eraill.

PENDERFYNWYD: Cynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Amgylcheddol yn y dyfodol ar bedwerydd dydd Mawrth bob mis am 6.30pm

Daeth y cyfarfod i ben am 8.27pm.

Cyfarfod nesaf 24 Mehefin 2025

